



Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Safonau Gwasanaeth

Darparu gwell amgylchedd



Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Cynnwys

Cysylltwch â ni

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwmo i sicrhau amgylchedd cynaliadwy ar gyfer trigolion, busnesau ac ymwelwyr Conwy.

Mae gan Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau rôl bwysig i'w chwarae yn hyn ac rydym yn ceisio sicrhau:

- Bod ein cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n rhoi gwerth am arian;
- Bod pobl Conwy yn lleihau eu hól troed ecolegol;
- Ein bod yn darparu amgylchedd diogel, glân a deniadol ar gyfer ein trigolion, busnesau ac ymwelwyr.

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

Y gwasanaethau rydym yn eu darparu

- Ailgylchu gwastraff cartref
- Ailgylchu Gwastraff Masnachol
- Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol
- Cyfleusterau Cyhoeddus
- Ffyrdd a Llwybrau Troed
- Glanhau Strydoedd
- Goleuadau Stryd
- Gwaith Stryd
- Gwasanaethau Profedigaeth
- Harbwr ac Arfor
- Lotments
- Mannau Gwyrdd
- Parcio
- Pontydd a Muriau Cynhaliol
- Rheoli'r Arfordir, Rheoli Risg Llifogydd a Draenio Tir
- Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd
- Tramffordd y Gogarth
- Uned Ymateb

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, byddwn yn:

- Ateb galwadau i'n llinell gymorth o fewn 15 eiliad.
- Ateb gohebiaeth ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith;
- Cydnabod negeseuon e-bost i affch@conwy.gov.uk o fewn 1 diwrnod gwaith;
- Cydnabod cwynion ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith ac ymateb yn llawn o fewn 10 diwrnod gwaith. Os nad yw'n bosibl gwneud hyn byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r rheswm dros yr oedi a phryd y gallwch ddisgwyl ymateb llawn.

Ysgrifennwch atom neu dewch i'n gweld yn:

**Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,
Swyddfeydd Mochdre,
Conway Road,
Mochdre,
LL28 5AB**

Anfonwch e-bost atom:

affch@conwy.gov.uk

Ffoniwch ni ar:

01492 575337

Neu ewch i'n gwefan lle gallwch gael mynediad i rai o'n gwasanaethau, rhoi gwybod am broblem neu anfon cais atom.

www.conwy.gov.uk

Darparu gwell amgylchedd

Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaethau rydym yn eu darparu

- Casgliadau ailgylchu domestig ar gyfer gwastraff bwyd, papur, cardbord, gwydr, caniau, cynwysyddion plastig, cartonau diod, batris yn ogystal â chasgliad gwastraff gardd;
- Biniau compostio yn y cartref cost isel;
- Safleoedd ailgylchu gwastraff domestig ym Mochdre ac Abergele, sy'n ailgylchu hyd yn oed mwy o eitemau, gan gynnwys dodrefn, pren, metel sgrap a nwyddau trydanol;
- Casgliadau o wastraff domestig na ellir ei ailgylchu;
- Casgliadau gwastraff swmpus cost isel ar gyfer eitemau mawr, fel dodrefn ac offer trydanol;
- Safleoedd ailgylchu ar draws y sir lle gellir ailgylchu amrywiaeth o ddeunyddiau, fel papur, caniau, gwydr, cartonau, tecstilau, esgidiau a llyfrau
- Casgliadau gwastraff clinigol a chlytiau ar gais;
- Casgliadau a gynorthwyr pan fo angen.

- Byddwn yn darparu cynwysyddion addas ar gyfer eich gwastraff i'w ailgylchu ac na ellir ei ailgylchu;
- Byddwn yn casglu deunydd i'w ailgylchu a gwastraff cartref o ymyl y palmant neu o'r man casglu;
- Byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi, gan gynnwys eich diwrnod casglu ac yn eich hysbysu am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth;
- Os ydym wedi methu eich casgliad, byddwn yn dychwelyd o fewn 48 awr wedi i chi roi gwybod i ni;
- Byddwn yn sicrhau bod cynwysyddion yn cael eu dychwelyd i'r man casglu a'u gadael yn daclus;
- Byddwn yn osgoi blocio mynedfeydd a ffyrdd lle bynnag y bo modd;
- Os bydd y criwiau casglu yn gollwng rhywbeth, byddant yn ei godi. Os yw'r gollyngiad yn rhy fawr, byddwn yn trefnu iddo gael ei lanhau o fewn 24 awr;
- Byddwn yn gwagio banciau ailgylchu fel nad ydynt yn gorlifo;
- Os gofynnwch am Gasgliad Gwastraff Swmpus, byddwn yn casglu eitemau o fewn 2 wythnos i ddyddiad derbyn y taliad;
- Byddwn yn rhoi'r holl wybodaeth rydych ei hangen i wastraffu llai ac ailgylchu mwy.

- Peidio rhoi unrhyw beth yn eich bin ar olwynion y gellir ei ailgylchu;
- Rhoi eich ailgylchu a'ch sbwriel allan erbyn 7am, er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn casgliad;
- Peidio gadael bagiau ychwanegol o wastraff wrth ochr eich bin a sicrhewch bod caead y bin ar gau;
- Rhoi eich cynwysyddion allan ar gyfer eu casglu ar ffin eich eiddo neu yn y man casglu fel y gall ein criwiau gael gafael arnynt yn gyflym ac yn ddiogel;
- Mewn cyfnodau o dywydd gwael, e.e. gwyntoedd cryfion ac eira, peidiwch â gadael eich bin neu'ch cynwysyddion ailgylchu allan dros nos;
- Dychwelyd eich cynwysyddion i'r tu mewn i ffin eich eiddo ar y diwrnod casglu;
- Os nad ydych wedi derbyn casgliad erbyn 5pm ar eich diwrnod casglu, rhwch wybod i ni y diwrnod canlynol;
- Mynd ag eitemau trwm fel rwbel ac offer trydanol i'n canolfannau ailgylchu. Peidiwch â'u rhoi yn y bin;
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn wella.

E-bost

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337



Darparu gwell amgylchedd

Ailgylchu Gwastraff Masnachol

Beth y gallwch ei
ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen
i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

- Casgliadau ailgylchu masnachol o wastraff bwyd, gwydr, papur, caniau, plastig a chardbord.
- Casgliadau gwastraff na ellir ei ailgylchu, cyn belled eich bod hefyd yn defnyddio ein gwasanaeth ailgylchu.

- Byddwn yn darparu gwasanaeth proffesiynol a dibynadwy;
- Byddwn yn darparu ateb wedi'i deilwra'n arbennig i'ch helpu i gynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff;
- Byddwn yn darparu cynwysyddion addas ar gyfer eich gwastraff i'w ailgylchu ac na ellir ei ailgylchu;
- Byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi, gan gynnwys eich diwrnod casglu ac yn eich hysbysu am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth;
- Os ydym wedi methu eich casgliad, byddwn yn dychwelyd cyn gynted ag y bo modd;
- Byddwn yn osgoi blocio mynedfeydd a ffyrdd lle bynnag y bo modd;
- Os bydd y criwiau casglu yn gollwng rhywbeth, byddant yn ei godi. Os yw'r gollyngiad yn rhy fawr, byddwn yn trefnu iddo gael ei lanhau o fewn 24 awr;
- Byddwn yn danfon eich cynwysyddion o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad llofnodi'r contract gwasanaeth;
- Byddwn yn darparu asesiad risg gweithredol a chynghor proffesiynol ar ailgylchu a rheoli gwastraff;
- Byddwn yn sicrhau bod ein cwsmeriaid masnachol yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol yn ymwneud â rheoli gwastraff.

- Peidio rhoi unrhyw beth yn eich bin ar olwynion y gellir ei ailgylchu;
- Peidio cymysgu gwastraff masnachol a gwastraff cartref;
- Peidio gadael bagiau ychwanegol o wastraff i'w casglu a sicrhau bod caead y bin ar gau;
- Rhoi gwybod am unrhyw beth sydd heb ei gasglu cyn gynted â phosibl;
- Sicrhau bod eich sbwriel a'ch ailgylchu ar gael erbyn 7am oherwydd mai dyma pryd mae ein criwiau yn dechrau eu rowndiau;
- Cadw at delerau'r contract a rhoi 28 diwrnod o rybudd i ni os ydych yn dymuno atal y gwasanaeth;
- Rhoi adborth ynglŷn â sut y gallwn wella ein gwasanaeth i chi.

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337



Darparu gwell amgylchedd

Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaethau rydym yn eu darparu

- Trefnu cludiant ysgol a choleg priodol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr cymwys yn unol â pholisïau perthnasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Caffael y cludiant mwyaf priodol, naill ai bws, bws mini, tacsï neu gar i gludo dysgwyr cymwys i'r ysgol neu'r coleg gyda'r llwybr mwyaf priodol a sicrhau gwerth am arian.
- Rheoli gwariant gweithredol cludiant ysgol a darparu adroddiadau rheolaidd i'r Gwasanaethau Addysg.
- Rheoli contractau ar gyfer pob contract bws a thacsï.
- Cynnal cofnodion o gwynion a sylwadau am wasanaethau.
- Trefnu i recriwtio cymhorthwyr teithwyr a chymeradwyo protocolau, gweithdrefnau a hyfforddiant priodol.

E-bost

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

Byddwn yn:

- Caffael a gweithredu cludiant ysgol yn effeithlon ac yn drefnus;
- Sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth statudol, a pholisïau'r awdurdod a'r adran;
- Darparu gwasanaeth o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar deithwyr ac yn ddiogel, gan ddarparu cludiant effeithlon, effeithiol ac economaidd i ddiwallu'r anghenion a nodwyd;
- Darparu gwasanaethau cludiant ysgol a choleg mewn ffordd sy'n cefnogi darpariaeth addysg a dysg ac yn sail i rôl statudol y Cyngor yn y gwaith o gynllunio a darparu lleoedd mewn ysgolion yn effeithlon;
- Cynllunio a monitro darpariaeth gwasanaethau trafnidiaeth drwy gynnal sianeli cyfathrebu clir a gweithio ar y cyd;
- Sicrhau bod yr holl yrwyr a chymhorthwyr teithwyr yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn gweithio ar gontractau sy'n cludo disgyblion dan 16 oed.

- Trin ein staff gyda chwarteisi a pharch;
- Darparu'r wybodaeth gywir yn ôl y gofyn er mwyn helpu'r tîm i drefnu cludiant mor effeithlon â phosibl.



Darparu gwell amgylchedd

Cyfleusterau Cyhoeddus

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn darparu toiledau ledled y sir. Mae'r cyfleusterau yn cael eu glanhau bob dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Yr oriau agor yw:

Misoedd yr haf:

Yn agor rhwng 07:00 a 10:00

Yn cau rhwng 19:30 a 21:30

Misoedd y gaeaf:

Yn agor rhwng 07:30 a 10:00

Yn cau rhwng 17:30 a 19:30

Mae ein toiledau ar agor gydol y flwyddyn, ac eithrio Dydd Nadolig a Dydd Calan.

Rydym wedi ymrwmo i'r Cynllun Toiledau Cymunedol, sy'n gynllun gan Lywodraeth Cymru i annog busnesau lleol i agor eu toiledau i'r cyhoedd.

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

Byddwn yn:

- Glanhau'r toiledau bob dydd;
- Ymateb i broblemau sy'n ymwneud â glanweithdra ac atgyweirio o fewn 24 awr;
- Archwilio ein toiledau i sicrhau bod safon uchel o lendid yn cael ei gynnal;
- Darparu toiledau cyhoeddus sy'n hygyrch i bawb, lle bo'n bosibl;
- Diweddarau ein cyfleusterau fel y mae arian yn caniatáu;
- Hyrwyddo'r Cynllun Toiledau Cymunedol ac annog busnesau lleol i ymrwmo iddo;
- Rhoi gwybodaeth i chi ar ble mae'r toiledau cyhoeddus ar draws y Sir, pa gyfleusterau y maent yn eu cynnig ac a oes tâl.

- Trin ein staff gyda chwarteisi a pharch;
- Defnyddio'r cyfleusterau yn gyfrifol;
- Rhoi gwybod am achlysuron o ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau ynglŷn â glendid neu atgyweiriadau i ni;
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn wella.



Darparu gwell amgylchedd

Ffyrdd a Llwybrau Troed

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y Gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn gyfrifol am gynnal a chadw ffyrdd a llwybrau troed a fabwysiadwyd yn y Sir yn unol â'r cod arfer da ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd

Rydym hefyd yn darparu rhwymedigaethau statudol yr Awdurdod o ran y rhwydwaith hawliau tramwy a hyrwyddo a datblygu cyfleoedd mynediad eraill a mwynhad y cyhoedd.

Rydym yn archwilio ffyrdd, palmentydd a llwybrau troed yn rheolaidd i ganfod peryglon fel rhwystrau a diffygion.

Rydym yn gwneud gwaith cynnal a chadw, gan gynnwys gosod wyneb newydd ar ffyrdd, gwagio rhigolau, ailosod ymylon palmentydd, trin chwyn, torri llystyfiant, ailosod arwyddion a marciau ffordd

Rydym yn cynnal fflyd o lorïau graeanu sy'n darparu gwasanaeth gaeaf mewnol rhwng 1 Hydref a 30 Ebrill bob blwyddyn.

Rydym yn darparu gwasanaeth y tu allan i orïau ar gyfer damweiniau neu achosion brys ar y briffordd drwy gysylltu â'r rhif canlynol:

Byddwn yn:

- Archwilio ffyrdd a phalmentydd yn unol â Deddf Priffyrdd 1980 a gwneud atgyweiriadau yn ôl yr angen;
- Ymdrin yn brydlon â diffygion peryglus y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt ar y priffyrdd;
- Gwagio pob rhigol unwaith bob blwyddyn neu'n amlach os oes angen;
- Gwneud gwaith trin chwyn a thorri llystyfiant ar ein rhwydwaith priffyrdd;
- Sicrhau bod y rhan fwyaf o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn hawdd i'w ddefnyddio;
- Darparu digwyddiadau cerdded a chefnogi Cerdded Conwy wrth ddarparu rhaglenni a gwyliau cerdded;
- Trin llwybrau blaenoriaeth cyntaf ar gefnffyrdd a ffyrdd sirol cyn i'r rhew neu eira gyrraedd, h.y. llwybrau i mewn i drefi a phentrefi, mynediad i ysgolion ac ar gyfer y gwasanaethau brys yn unol â pholisi'r cyngor;
- Darparu biniau graean ar fryniau serth a chyffyrdd prysur i breswylwyr eu defnyddio;
- Adnewyddu ac ailosod arwyddion a marciau ffordd sydd wedi gwisgo;
- Ymdrin ag unrhyw ddamweiniau ac achosion brys y rhoddwyd gwybod amdanynt ar y briffordd yn brydlon.

- Defnyddio'r graean halltu o finiau sydd ar gael ar ffyrdd serth ac ar gyffyrdd prysur yn ystod y tywydd rhewllyd;
- Rhoi gwybod am beryglon ar y rhwydwaith priffyrdd a llwybrau troed;
- Cynnal unrhyw wrychoedd neu goed ar eich tir er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhwystro ffordd, palmant neu lwybr troed;
- Defnyddio Hawliau Tramwy Cyhoeddus mewn modd ystyriol a chwrtais i beidio rhwystro neu atal defnydd cyfreithlon yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus;
- Peidio gadael toriadau gwrych neu fwd ar y ffordd;
- Cynnal ffosydd ar eich tir a glanhau griliau a phyllau dal;
- Cymryd rhan mewn digwyddiad cerdded
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn wella.

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337



Darparu gwell amgylchedd

Glanhau Strydoedd

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn gyfrifol am lanhau strydoedd, ffyrdd, parciau sy'n eiddo i'r cyngor a mannau agored o fewn y Sir, gan ddefnyddio dulliau ysgubo mecanyddol a dulliau â llaw. Rydym hefyd yn gyfrifol am wagio biniau sbwriel, clirio sbwriel a baw cŵn, symud eitemau sydd wedi'u tipio yn anghyfreithlon a golchi palmentydd mewn ardaloedd canol tref.

Rydym yn cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff (Rhan 4 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990).

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

Byddwn yn:

- Glanhau strydoedd, parciau a mannau agored yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol;
- Dirwyo pobl sy'n gollwng sbwriel ac nad ydynt yn clirio baw eu cŵn;
- Ysgubo ffyrdd gwledig o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn osgoi croniad dail;
- Darparu biniau glân a diogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ar gyfer sbwriel a gwastraff cŵn, a'u gwagio cyn iddynt orlifo;
- Ymateb i adroddiadau am ysbwriel yn brydlon;
- Canfod a thargedu ardaloedd sy'n dueddol o gronni sbwriel;
- Gweithio gyda chi, Cadwch Gymru'n Daclus a grwpiau cymunedol lleol i gadw eich ardal yn rhydd rhag sbwriel;
- Archwilio ein strydoedd i sicrhau bod safon uchel o lendid yn cael ei gynnal;
- Delio ag anifeiliaid marw ar ochr y ffordd yn brydlon ac mewn modd sensitif;
- Symud eitemau sydd wedi'u tipio yn anghyfreithlon o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod;
- Symud nodwyddau hypodermig o fewn 1 diwrnod gwaith;
- Ymweld â phob ward yn flynyddol i ganfod a datrys materion sy'n effeithio ar eich amgylchedd lleol, fel tipio anghyfreithlon, sbwriel, tyllau yn y ffordd, ymylon palmentydd wedi torri ac ati;
- Darparu offer codi sbwriel i drigolion eu benthyg;
- Cynnal 12 o Ddiwrmodau Gweithredu Amgylcheddol bob blwyddyn ledled y Sir i helpu i gadw eich ardal leol yn lân.

- Clirio baw eich ci a naill ai ei roi yn y bin neu fynd ag ef adref. Gallwch chi roi eich gwastraff ci naill ai mewn bin baw ci coch neu fin sbwriel;
- Taflu eich sbwriel yn gyfrifol;
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau sbwriel;
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw dipio anghyfreithlon;
- Rhoi gwybod am feinciau stryd a biniau sbwriel sydd wedi'u difrodi;
- Peidio gadael toriadau gwrych neu fwd ar y ffordd;
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn wella.



Darparu gwell amgylchedd

Goleuadau Stryd

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu:

Rydym yn darparu goleuadau stryd addas a digonol i ddiwallu anghenion pobl Conwy. Ein nod yw gwella diogelwch cerbydau, cerddwyr (yn enwedig grwpiau diamddiffyn), lleihau troseddu a lleihau'r ofn o droseddu gyda'r nos.

Mae adran goleuadau stryd Conwy yn gofalu am:

- Ychydig dros 16,000 o bolion goleuadau stryd a braced polion a lampau cysylltiedig
- 60 o systemau rheoli traffig e.e. croesfannau i gerddwyr gyda signalau
- 2,500 o folardiau ac arwyddion gyda golau

Email:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

Byddwn yn:

- Darparu rhwydwaith briffyrdd diogel wedi ei oleuo'n dda i holl ddefnyddwyr y briffordd, gyda'r brif nod o leihau damweiniau gyda'r nos
- Cynnal archwiliadau rheolaidd gyda'r nos ar oleuadau ac arwyddion wedi eu goleuo bob 28 diwrnod i gofnodi a threfnu gwaith trwsio diffygion;
- Cynnal ein hasedau goleuo strydoedd i safon dderbyniol, disodli polion goleuadau diffygiol yn unol â chyllidebau sydd ar gael;
- Gwneud gwaith trwsio ar lampau o fewn 5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau ynglŷn â goleuadau stryd ac arwyddion gyda golau yng Nghonwy;
- Bod mor fanwl gywir â phosibl wrth ddisgrifio lleoliadau'r colofnau golau neu arwyddion â golau sydd â nam;
- Trin ein staff gyda chwarteisi a pharch ;
- Rhoi adborth ynglŷn â sut y gallwn wella ein gwasanaeth.
- Gwerthfawrogi mai'r cwmni trydan lleol sy'n mynd i'r afael â diffygion i'r cyflenwad trydan ac nad oes gan y tîm reolaeth un-iongyrchol dros yr amserlenni ar gyfer y mathau hyn o waith trwsio.



Darparu gwell amgylchedd

Gwaith Stryd

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn gyfrifol am:

- Leihau unrhyw anghyfleustra, o ganlyniad i waith ffordd a gweithgareddau eraill ar y briffordd, gan gynnwys digwyddiadau, sgiplau a sgaffaldiau;
- Sicrhau bod cwmnïau cyfleustodau a chontractwyr eraill sy'n cloddio yn y briffordd yn adfer eu gwaith i safon dda i ddiogelu Priffyrdd y sir;
- Gwneud yn siŵr bod y cwmnïau cyfleustodau a chontractwyr eraill yn amddiffyn y cyhoedd rhag unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â'u gwaith ar y briffordd;
- Sicrhau bod ffyrdd stadau tai newydd neu ffyrdd newydd eraill yn cael eu hadeiladu yn briodol cyn cael eu mabwysiadu;
- Trwyddedu'r holl weithgareddau ar y briffordd, er enghraifft sgiplau, sgaffaldiau, digwyddiadau a chau ffyrdd.

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

- Mae gan gwmnïau cyfleustodau hawl gyfreithiol i weithio yn y briffordd. Mae angen ein caniatâd ar unrhyw gontractwyr eraill a byddwn ond yn rhoi caniatâd i gontractwyr cymwys addas;
- Byddwn yn gwneud ein gorau i gadw oedi trafniadaeth i'r isafswm trwy gydlynu pob gwaith a gweithgareddau eraill ar y briffordd;
- Byddwn yn cadw cofrestr o'r holl waith ar y briffordd ac o hyn yn cyhoeddi bwletin gwaith ffordd ddwywaith yr wythnos ar ein gwefan, gan dynnu sylw at y rhai fydd yn achosi'r mwyaf o oedi neu anghyfleustra.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein bwletin gwaith ffordd mor gywir ag y bo modd drwy roi Rhybuddion Cosb Benodedig i unrhyw un sy'n darparu gwybodaeth anghywir;
- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y cwmnïau cyfleustodau a chontractwyr eraill yn cwblhau eu gwaith o fewn amser rhesymol, ac yn codi tâl arnynt os nad ydynt yn gwneud hyn;
- Byddwn yn arolygu sampl o waith y cwmnïau cyfleustodau, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac i safon dda, ac yn gwneud iddynt gywiro pethau os nad ydyw;
- Byddwn ond yn caniatáu cau ffordd os nad yw'n ddiogel i'w ddefnyddio tra bod gwaith neu ddigwyddiad yn cael ei gynnal neu os yw cau yn golygu llai o anghyfleustra yn gyffredinol;
- Byddwn yn sicrhau bod y gwaith o adeiladu ffyrdd newydd yn bodloni ein safonau ar gyfer mabwysiadu.

- Rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion ar gaeadau tyllau archwilio ar y briffordd;
- Rhoi gwybod am unrhyw waith ffordd os ydych yn amau nad oes ganddynt ganiatâd neu eu bod yn beryglus (e.e. dim rhwystrau neu oleuadau);
- Wrth logi sgip neu sgaffaldiau, caniatewch ddigon o amser i'r cwmni wneud cais am drwydded;
- Os ydych wedi llogi sgip ar gyfer eich dreif peidiwch â'i symud i'r stryd;
- Peidiwch â rhoi unrhyw beth ar y ffordd neu balmant heb ganiatâd. Rhowch wybod i ni os ydych yn cynllunio digwyddiad neu orymdaith a fydd yn effeithio ar y briffordd;
- Rhowch adborth i'n helpu i wella ein gwasanaeth i chi.



Darparu gwell amgylchedd

Gwasanaethau Profedigaeth

Beth y gallwch ei
ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn darparu ac yn cynnal 11 o fynwentydd ac un amlogfa yn y fwrdeistref sirol.

Mae swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth yn:

Amlogfa Bae Colwyn
Bron y Nant Road
Mochdre
LL28 4YN

Yr oriau agor yw:

09:00 tan 16:30 dydd Llun – ddydd Iau
09:00 tan 16:00 ar ddydd Gwener.

Ar benwythnosau mae gwasanaeth archebu awtomataidd ar gael ar gyfer cyfarwyddwyr angladdau.

Rydym yn cynnig claddedigaethau coetir yn Llandudno, Llanfairfechan, a Phenmaenmawr, lle bydd deunyddiau naturiol yn cael eu defnyddio wrth gladdu a choeden goffa yn cael ei phlannu ar y bedd.

Rydym yn aelodau o'r "Siarter Galarwyr" - cynllun i annog rhagoriaeth yn y diwydiant.

Email:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

Byddwn yn:

- Darparu gwasanaeth claddu ac amloggi proffesiynol a sensitif;
- Gweithredu amlogfa ddiogel, cyfeillgar i'r amgylchedd sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda;
- Sicrhau bod ein mynwentydd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda;
- Archwilio pob carreg fedd bob 5 mlynedd i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gadarn;
- Darparu ystod o gofebion fforddiadwy yn y mynwentydd a'r amlogfa;
- Sicrhau darpariaeth ddigonol o le claddu yn y Sir;
- Cyfarfod cynrychiolwyr o broffesiynau profedigaeth mewn fforwm rheolaidd i drafod materion sy'n peri pryder a meysydd i'w gwella;
- Ymgynghori â'n cwsmeriaid bob blwyddyn a defnyddio eu hadborth i'n helpu i wneud gwelliannau.

- Defnyddio'r cyfleusterau mewn mynwentydd a'r amlogfa yn gyfrifol gan ystyried eraill;
- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau yn y mynwentydd a'r amlogfa;
- Taflu unrhyw deyrngedau, boed yn flodau neu fel arall, yn y biniau a ddarperir ar ôl cyfnod priodol o amser;
- Parcio eich cerbyd yn gyfrifol wrth ddefnyddio meysydd parcio'r amlogfa neu'r fynwent;
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn wella



Darparu gwell amgylchedd

Harbwr ac Arfor

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn rheoli ac yn cynnal angorfeydd, pontynau, glanfeydd a llithrfeydd yn Harbwr Conwy a Llandrillo-yn-Rhos ac yn gweinyddu trwyddedau angori.

Rydym yn cynnal yr holl gymhorthion mordwyo yn Harbwr Conwy a'r sianel ddynesu

Rydym yn rheoli pob defnydd hamdden a thwrtaidd o'r traethau, promenadau a blaendraethau ar hyd arfordir y Sir, gan gynnwys gweithgareddau yn y dŵr ac ar y lan.

Rheoli a monitro lansiad pob math o gychod a gweithgareddau dŵr cyffredinol, gan gynnwys gwirio yswiriant ac offer diogelwch;

Cynnal yr is-ddeddfau ac awdurdodi digwyddiadau ar bromenadau a thraethau Conwy.

Cydlynu ceisiadau am y Faner Las a Gwobrau Glan y Môr, gan sicrhau bod y meini prawf yn cael eu cynnal.

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

- Ein nod yw darparu amgylchedd diogel i bawb sy'n defnyddio'r Harbwr ac Arfor;
- Bydd yr Angorfeydd yn cael eu cynnal a'u harolygu at y safon a gytunwyd o fewn yr amodau trwydded angori;
- Bydd bob cwch yn cael eu monitro a'u perchnogion yn cael eu hysbysu os yw eu cwch angen eu sylw;
- Mae ein holl lithrfeydd yn cael eu harchwilio yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r cyhoedd eu defnyddio;
- Bydd unrhyw offer achub bywyd yn cael eu harchwilio yn rheolaidd a'u newid pan fo angen;
- Byddwn yn ymateb i bryderon y cyhoedd ar unwaith lle bo modd;
- Bydd ein swyddogion yn rhoi cyngor ac arweiniad i holl ddefnyddwyr yr Harbwr ac Arfor;
- Mae gan bob un o'n traethau a llithrfeydd Arolygwyr Arfordir profiadol fydd yn monitro ansawdd y dŵr ymdrochi yn unol â safonau Cynllun Gwobr Glan Môr;
- Darparu gwasanaeth cymorth cyntaf sylfaenol yn y prif bromenadau;
- Cydlynu ceisiadau am Wobrau Baner Las a Glan y Môr, gan sicrhau bod y meini prawf yn cael eu cynnal;
- Darparu offer diogelwch ar hyd yr arfordir ac i fyny Dyffryn Conwy a sicrhau ei fod yn cael ei gynnal.

- Rhoi gwybod am unrhyw beth anniogel neu rywbeth sydd angen ein sylw, fel cyloedd bywyd coll ac ati;
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw beth amheus yn yr Harbwr ac ar hyd y Arfordir;
- Parchu Deddfau ac Is-ddeddfau'r Harbwr ac Arfor;
- Sicrhau bod yr holl gofrestrïadau a ffioedd yn cael eu dychwelyd mewn pryd.



Darparu gwell amgylchedd

Lotments

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn darparu 12 o safleoedd lotment ledled Conwy gyda lleiniau o wahanol faint gan gynnwys plotiau a godwyd i sicrhau mynediad i'r anabl.

Mae lotments yn galluogi pobl i dyfu eu bwyd eu hunain a mwynhau rhai gweithgareddau awyr agored.

Byddwn yn:

- Archwilio lleiniau lotment i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn dda; a chynnal yr ardaloedd cyfagos
- Rhoi cyngor ac arweiniad i denantiaid lotments ynglŷn â'r modd gorau i reoli eu llain
- Ail-osod llain lotment o fewn 2 wythnos i'r dyddiad y daw'n wag
- Trefnu Fforwm Lotments lle gall cynrychiolwyr o bob safle lotment gyfarfod i drafod materion o ddiddordeb.

- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau coed amlwg;
- Ein helpu ni i ffurfio grwpiau cymunedol a chyfeillion yn eich ardal leol;
- Cynnal eich plot lotment yn unol â thelerau ac amodau y denantiaeth;
- Rhoi gwybod i ni os oes gennych ddiddordeb mewn cael plot lotment;
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn wella.

Ebost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337



Darparu gwell amgylchedd

Mannau Gwyrdd

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn cynnal parciau, gwarchodfeydd natur, ardaloedd chwarae, manau agored, ac ymylon ffyrdd trefol ledled y Sir, gan sicrhau eu bod yn ddiogel, yn hygyrch, yn ddeniadol, yn lân a bod yma offer da.

Rydym yn ceisio gwarchod a gwella amgylchedd naturiol y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys: rheoli 21 o Warchodfeydd Natur Lleol a safleoedd lled-naturiol eraill sy'n eiddo i'r Cyngor; cyflwyno gwasanaethau cadwraeth bioamrywiaeth a gwasanaethau ecolegol, a chyflwyno'r fenter Coed Cymru yng Nghonwy.

Rydym yn cynnal canolfan ymwelwyr y Gogarth sydd ar agor bob dydd rhwng mis Mawrth a mis Hydref.

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

Byddwn yn:

- Sicrhau bod ein manau agored wedi'u cynnal a'u cadw yn dda ac yn unol ag arfer garddwriaethol da;
- Darparu gwarchodfeydd natur a pharciau Baner Werdd o safon uchel;
- Sicrhau bod ein meysydd chwarae yn cydymffurfio â safonau diogelwch Prydain ac Ewrop.
- Archwilio a chynnal ein coed fel eu bod yn ddiogel;
- Ymateb i faterion diogelwch coed o fewn 6 awr;
- Prosiectau cefnogi cymunedol ar gyfer datblygu manau gwyrdd a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer eich cyfranogiad;
- Gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau rheolaeth cadwraeth briodol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghonwy;
- Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn briodol wrth ddarparu gwasanaethau cyngor;
- Hyrwyddo digwyddiadau bioamrywiaeth i chi gymryd rhan ynddynt;
- Darparu ar gyfer ymweliadau gan grwpiau ysgolion i'n Gwarchodfeydd Natur Lleol;
- Darparu cymorth i berchnogion coetiroedd sydd eisiau bod yn rhan o gynlluniau grantiau rheoli / creu coetiroedd.

- Mwynhau defnyddio ac archwilio ein hamgylchedd naturiol ac annog Bioamrywiaeth yn eich ardal leol;
- Rhoi gwybod am unrhyw ddifrod yn ein parciau a manau chwarae;
- Rhoi gwybod am achlysuron o ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau coed amlwg;
- Clirio baw eich ci a naill ai ei roi yn y bin neu fynd ag ef adref. Gallwch chi roi eich gwastraff ci naill ai mewn bin baw ci coch neu fin sbwriel;
- Mynd â'ch holl sbwriel gartref neu ei roi yn un o'n biniau sbwriel;
- Cadw at is-ddeddfau lleol a bod yn ystyriol yn eich defnydd o Warchodfeydd Natur Lleol;
- Ein helpu i ffurfio grwpiau cymunedol a chyfeillion yn eich ardal leol;
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn wella.



Darparu gwell amgylchedd

Parcio

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu:

Mae'r Gwasanaethau Parcio yn gyfrifol am reoli parcio ar y stryd ar y briffordd a darparu a rheoli 21 o feysydd parcio talu ac arddangos cyhoeddus oddi ar y stryd sy'n cynnig dros 2000 o lefydd parcio o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy, ynghyd â thua 20 o feysydd parcio eraill sydd yn rhad ac am ddim.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am reoli Tollffordd Marine Drive. Llwybr golygfaol 3.5 milltir ar y Gogarth yn Llandudno.

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337

Byddwn yn:

- Cynnal Tollffordd Marine Drive er mwyn darparu mynediad bob amser;
- Ymateb i geisiadau i orfodi cyfyngiadau megis; man parcio i'r anabl ar gyfer preswlydd, patrolau ysgolion, safleoedd bws, safleoedd tacsis a chyfyngiadau eraill;
- Cynnal archwiliad ar feysydd parcio i sicrhau bod amodau gwaith diogel, a chyfreithiol yn cael eu bodloni
- Chynnal a chadw peiriannau talu ac arddangos ar/oddi ar y stryd bob dydd;
- Gweithio gydag eraill er mwyn trefnu digwyddiadau i hyrwyddo manau parcio digonol a chanllawiau o ran y ddeddfwriaeth berthnasol;
- Darparu manau gollwng/codi gyda choetsis a digon fannau parcio coetsis dros nos gyda chyfleusterau toiled/ymolchi yn Llandudno
- Darparu gwasanaeth talu 24 awr ar gyfer yr holl rybuddion talu cosb (RhTC) a roddwyd;
- Cynnig cyfnod disgownt dilys am 14 diwrnod o ddyddiad y rhybudd talu cosb (RhTC) a roddwyd ac, os bydd y rhybudd talu cosb a roddwyd yn cael ei herio, rhoi'r cyfnod disgownt ar ôl canlyniad apêl o'r fath;
- Ymdrechu i ymateb i bob her parcio yn ysgrifenedig o fewn cyfnod o 14 diwrnod.

- Parcio yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol / rheolau'r ffordd fawr er mwyn peidio mynd yn groes i'r cyfyngiadau parcio sydd ar waith;
- Rhoi gwybod am gerbydau sy'n parcio yn anghyfreithlon;
- Rhoi gwybod i wasanaethau parcio os ydych yn gwybod bod eich cerbyd wedi'i barcio'n groes i reolau, ond nad ydych yn gallu symud y cerbyd;
- Os oes rhaid i gerbydau fel cerbydau gwaith neu faniau gael mynediad at eich safle trwy barcio yn anghyfreithlon, rhowch wybod i ni fel y gellir llenwi trwydded;
- Rhoi gwybod am beiriannau / arwyddion sydd angen eu trwsio;
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau yn yr ardal;
- Er mwyn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig wrth herio hysbysiad talu cosb a roddwyd, dylech gynnwys yr holl dystiolaeth gefnogi;
- Rhoi adborth i'n helpu i wella ein gwasanaeth i chi.



Darparu gwell amgylchedd

Pontydd a Muriau Cynhaliol

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

- Rydym yn gyfrifol am reoli a chynnal 573 o Bontydd a 585 o Furliau Cynhaliol o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Sicrhau fod pob Pont a Mur Cynhaliol mewn cyflwr sy'n addas at eu diben
- Archwilio pob adeiledd yn rheolaidd i ganfod peryglon a diffygion

Byddwn yn:

- Archwilio pob Pont a Mur Cynhaliol yn unol â chodau a safonau perthnasol
- Bydd pob ased strwythurol yn cael eu harchwilio o fewn cyfnod archwilio dwy flynedd o hyd
- Delio'n brydlon gyda diffygion peryglus a nodir gan y cyhoedd neu'r rhaglen archwilio
- Cynnal asesiadau strwythurol o dro i dro i ganfod capasiti strwythurol adeileddau
- Rheoli symudiad llwythi anarferol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Gwneud gwaith cryfhau strwythurol ar adeileddau is na'r safon
- Gwneud gwaith cynnal a chadw wedi eu cynllunio / ymatebol ar adeileddau
- Gwneud gwaith cynnal a chadw gan gynnwys trwsio gwaith carreg, trwsio concrit, cryfhau strwythurol a gwaith ailadeiladu lleol ar asedau

- Rhoi gwybod am bob pryder ynghylch adeileddau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Rhoi gwybod am gerbydau sy'n teithio ar draws adeileddau gyda chyfyngiadau pwysau sy'n drymach na'u capasiti strwythurol
- Darparu adborth o ran sut y gallwn wella ein gwasanaeth i chi

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Customer Advice Line

01492 575337



Rheoli'r Arfordir, Risg Llifogydd a Draenio Tir

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rheoli'r Arfordir:

Rydym yn gyfrifol am gynnal amddiffynfeydd morol sy'n eiddo i'r Cyngor a monitro lefelau'r traeth a phrosesau arfordirol.

Rheoli Perygl Llifogydd:

Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol yn ymwneud â rheoli llifogydd yn y sir;

Rydym yn darparu cyngor ar effaith datblygiadau arfaethedig mewn perthynas â draenio tir a pherygl llifogydd;

Rydym yn darparu gwasanaethau ymgynghorol mewn perthynas â draeniau a charthffosydd preifat, ond ers mis Hydref 2012 mae Dŵr Cymru wedi cymryd cyfrifoldeb am draeniau a charthffosydd preifat a rennir.

Draenio Tir:

Rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i breswylwyr mewn perthynas â materion draenio tir a risg llifogydd.

Llinell Llifogydd y Tu Allan i Oriau

01492 577999

Llinell gymorth

01492 575337

- Ein nod yw canfod, ymchwilio a rheoli peryglon llifogydd;
- Byddwn yn cynnal archwiliadau a gwaith cynnal a chadw i amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn gwneud gwaith brys pan fo angen;
- Byddwn yn monitro proffiliau traeth yn rheolaidd ac yn gwneud gwaith rheoli traethau yn seiliedig ar lefelau sbardun a gweithredu a nodwyd;
- Byddwn yn rhoi cyngor ac arweiniad i chi ar sut y gallwch amddiffyn eich eiddo rhag llifogydd;
- Byddwn yn cynnal Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Llifogydd ledled y Sir i wella ymwybyddiaeth o beth i'w wneud os ceir llifogydd;
- Byddwn yn rhoi cyngor ar effaith datblygiadau arfaethedig mewn perthynas â draenio tir a pherygl llifogydd;
- Byddwn yn rhoi cyngor ac arweiniad i chi mewn perthynas â materion draenio tir;
- Rydym yn gyfrifol am reoleiddio cyrsiau dŵr cyffredin gan gynnwys rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau a allai rwestro neu newid llif y cwrs dŵr a chamau gorfodi i unioni gwaith anghyfreithlon a niweidiol posibl i'r cwrs dŵr.
- Byddwn yn glanhau ac yn archwilio pob rhigol ar briffyrdd o fewn cyfnod o 12 mis.

- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau a phryderon sy'n gysylltiedig â llifogydd cyn gynted ag y bo modd;
- Gwirio draeniau a charthffosydd yr ydych yn gyfrifol amdanynt yn rheolaidd ac ymdrin ag unrhyw rwystrau i atal llifogydd;
- Gwneud yn siŵr bod unrhyw ffosydd neu gyrsiau dŵr ar eich tir yn cael eu cynnal yn dda ac yn glir o unrhyw rwystrau;
- Gwarchod eich eiddo drwy brynu eich cynnyrch atal llifogydd eich hun;
- Rhoi unrhyw wybodaeth i ni am lifogydd hanesyddol h.y. lluniau neu adroddiadau;
- Dod i adnabod eich cymdogion. Efallai y byddant angen eich help, neu yn gallu gweithio gyda chi i glirio rhwystrau o gyrsiau dŵr ar eich tir;
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn wella ein gwasanaeth i chi.



Darparu gwell amgylchedd

Trafnidiaeth a Diogelwch y Ffyrdd

Beth y gallwch ei
ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen
i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

- Rydym yn gyfrifol am gynnal astudiaethau i ddamweiniau traffig a chymryd camau priodol i geisio eu hatal.
- Rydym yn gyfrifol am roi hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd ymarferol, cyngor a gwybodaeth i ddefnyddwyr y ffordd.
- Rydym yn gyfrifol am leihau tagfeydd traffig, lle bo hynny'n ymarferol ac yn fforddiadwy.
- Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiadau newydd a ffyrdd newydd yn ddiogel, yn gynaliadwy a ddim yn achosi tagfeydd traffig gormodol.

Byddwn yn:

- Dadansoddi ystadegau damweiniau traffig i ddarganfod a oes unrhyw achosion ar gyfer damweiniau mewn lleoliadau penodol;
- Gwneud ein gorau i atal damweiniau a thagfeydd drwy wella ein ffyrdd, rheoli sut y cânt eu defnyddio neu roi cyngor a gwybodaeth i'r rhai sy'n eu defnyddio, o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni;
- Gwneud ein gorau i leihau'r risg bod defnyddwyr ffyrdd diamddiffyn neu risg uchel yn cael damwain drwy gysylltu â nhw i ddarparu hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth;
- Gwneud ein gorau i atal y risg o ddamweiniau neu dagfeydd gan ddatblygiadau neu ffyrdd newydd drwy wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynllunio a'u hadeiladu yn briodol.

- Sicrhau eich bod yn gyrru a pharcio yn ddiogel, gan gydymffurfio â rheoliadau traffig a Rheolau'r Ffordd Fawr;
- Annog unrhyw defnyddwyr ffyrdd diamddiffyn neu risg uchel yr ydych yn gwybod amdanynt i gysylltu â ni i gael hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth (e.e. eich plentyn, eich ysgol leol, ac ati.);
- Gwneud eich rhan i leihau tagfeydd traffig drwy ddefnyddio'r trênn neu fws, neu feicio neu gerdded yn hytrach na defnyddio eich car, hyd yn oed os yw dim ond am ran o'r daith;
- Ymateb yn wrthrychol, yn adeiladol ac yn rhesymol i ymgynghoriadau ynglŷn â datblygiadau newydd, ffyrdd newydd, gwelliannau ffyrdd neu reoliadau traffig

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 575337



Darparu gwell amgylchedd

Tramffordd y Gogarth

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y Gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Mae unig dramffordd ffordd gyhoeddus cebl Prydain yn mynd â theithwyr o Llandudno i gopa'r Gogarth.

Mae'r Dramffordd yn gweithredu rhwng diwedd mis Mawrth a diwedd mis Hydref, 7 diwrnod yr wythnos, bob 20 munud o 10am-6pm (bydd y dramffordd yn cau am 5pm yn ystod mis Mawrth a mis Hydref).

Byddwn yn:

- Cymryd archebion gan grwpiau ac ysgolion ar gyfer y Dramffordd, Mwyngloddiau Copr y Gogarth, Canolfan Ymwelwyr y Parc Gwledig a chanolfan Sgïo ac Eirafyrddio Llandudno;
- Darparu gwasanaeth o safon i'n holl gwsmeriaid drwy ein staff hyfforddedig;
- Cynnig gwasanaeth o leiaf bob 20 munud yn ystod ein horiau gweithredu;
- Cynnal trefn gynnal a chadw bwrpasol lem i sicrhau diogelwch ein teithwyr.

- Cysylltwch â ni gan ddefnyddio e-bost, ffôn, ein gwefan neu gyfryngau cymdeithasol;
- Gadewch eich sylwadau am eich profiad ar dramffordd Fictoraidd y Gogarth ar Trip Advisor, Wynepfyr neu ar ein gwefan.

E-bost:

tramffordd@conwy.gov.uk

Llinell gymorth

01492 577877



Darparu gwell amgylchedd

Uned Ymateb

Beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Beth y mae angen i chi ei wneud

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn darparu gwasanaeth ymateb mewn perthynas â gwaith bach a gweithgareddau draenio.

Mae'r Tîm yn ymgymryd ag ystod eang o wasanaethau gan gynnwys:

- Cynnal a chadw rheolaidd a glanhau cyrsiau dŵr sy'n llifo drwy dir sy'n eiddo i'r Awdurdod;
- Ymateb llifogydd - darparu bagiau tywod yn ystod llifogydd. Mae gan bob un o'n gweithwyr wybodaeth leol ac arbenigedd o ardaloedd perygl llifogydd yn yr Awdurdod, a all fod yn fuddiol yn ystod digwyddiad llifogydd;
- Ymateb Gollyngiad Morwrol – glanhau'r traethlin yn dilyn gollyngiad olew

E-bost:

affch@conwy.gov.uk

Llinell Llifogydd y Tu Allan i Oriau

01492 577999

Llinell gymorth

01492 575337

Byddwn yn:

- Darparu ymateb 24 awr ar gyfer argyfyngau amgylcheddol fel llifogydd a gollyngiadau arforol;
- Trefnu i gael gwared ar bob graffiti o fewn pedwar diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod amdano;
- Sicrhau bod yr holl gyrsiau dŵr sy'n llifo drwy dir sy'n eiddo i'r Awdurdod yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd afon;
- Rhoi cyngor i berchnogion tir sydd â ffosydd neu gyrsiau dŵr ar eu tir;
- Trefnu ar gyfer codi a thynnu amddiffynfeydd rhag llifogydd dros dro ar hyd arfordir Conwy i leihau'r risg o lifogydd arfordirol.

- Sicrhau bod cyrsiau dŵr sy'n rhedeg drwy eich tir yn cael eu cynnal a'u cadw'n glir rhag unrhyw rwystrau;
- Rhoi gwybod am lifogydd, gollyngiadau olew, ag graffiti,
- Adborth ynglŷn â sut y gallwn wella ein gwasanaeth i chi.



Darparu gwell amgylchedd